HYSBYSIAD PREIFATRWYDD I WEITHWYR:

Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn nodi sut rydym ni'n defnyddio ac yn diogelu'r wybodaeth a gasglwn i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'ch hawliau o dan Ddeddf Data (Defnydd a Mynediad) 2025.

Mae Deddf Data (Defnydd a Mynediad) 2025 yn ddeddfwriaeth bwysig a dderbyniodd Gydsyniad Brenhinol ar 19 Mehefin 2025 i gyflwyno newidiadau graddol yn y Deyrnas Unedig yn ystod 2026. Mae'n moderneiddio rheoliadau data'r Deyrnas Unedig drwy ddiweddaru Deddf Diogelu Data 2018, GDPR y DU, a Rheoliadau PECR 2003 i symleiddio'r broses o gydymffurfio, hyrwyddo arloesedd economaidd, a diogelu hawliau unigolion.

Rydym yn cadw'r hawl i ddiwygio'r datganiad preifatrwydd hwn o bryd i'w gilydd. Dylech wirio'r dudalen hon o bryd i'w gilydd i sicrhau eich bod yn hapus ag unrhyw newidiadau a wneir. Ac eithrio fel yr eglurir yn y datganiad, ni fyddwn yn rhyddhau unrhyw wybodaeth bersonol i drydydd parti o dan unrhyw amgylchiadau oni bai eich bod wedi rhoi caniatâd penodol i ni wneud hynny, neu os oes rhaid i ni wneud hynny yn ôl y gyfraith.

I gael rhagor o wybodaeth am Ddiogelu Data, darllenwch ein Polisi Diogelu Data.

Rydym wedi cofrestru fel rheolwr data gyda Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth y DU a'n rhif cofrestru diogelu data yw Z6977730. I gael rhagor o wybodaeth am Ddiogelu Data, darllenwch ein Polisi Diogelu Data

Yn y Polisi Preifatrwydd hwn mae'r termau “Grŵp Llandrillo Menai”, “ni”, ac “ein” yn cyfeirio at Grŵp Llandrillo Menai a'i gwmnïau cysylltiedig a'i is-gwmnïau yn fyd-eang.

Er bod yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn wedi'i fwriadu i ddisgrifio ystod ehangaf ein gweithgareddau prosesu gwybodaeth, gall y gweithgareddau prosesu hynny fod yn fwy cyfyngedig mewn rhai awdurdodaethau oherwydd cyfyngiadau eu cyfreithiau. Er enghraifft, gall cyfreithiau gwlad benodol gyfyngu ar y math o wybodaeth bersonol y gallwn ei chasglu neu'r ffordd rydym yn prosesu'r wybodaeth honno. Yn yr achosion hyn, rydym ni'n addasu ein polisïau a'n harferion mewnol i adlewyrchu gofynion y gyfraith leol.

Mae Grŵp Llandrillo Menai'n "gorff elusennol eithriedig" sy'n gorfforedig ers 1993. Golyga hyn y gall y gall gwybodaeth bersonol am ei weithwyr gael ei defnyddio, ei phrosesu a'i throsglwyddo i'r awdurdodau perthnasol; CThEF, Pensiynau, Cyflogres ac ati at ddibenion cynnal eu cyflogaeth gyda'r Grŵp.

Fe all gwefan Grŵp Llandrillo Menai (www.gllm.ac.uk) neu ei gwmnïau cysylltiedig a'i is-gwmnïau fod â pholisïau preifatrwydd a thelerau defnyddio gwahanol sy'n berthnasol i'w defnydd. Yn ogystal, gall peth o'n cynnyrch a'n gwasanaethau fod â pholisïau preifatrwydd a thelerau defnyddio gwahanol sy'n berthnasol i'w defnydd. Nid yw'r wybodaeth bersonol a gesglir mewn perthynas â'ch defnydd o'r gwefannau neu gynnyrch neu wasanaethau hynny'n ddarostyngedig i'r Polisi Preifatrwydd hwn.

Os nad ydych yn siŵr sut mae'r Polisi Preifatrwydd hwn yn berthnasol i chi, neu a yw'n berthnasol i chi, cysylltwch â data@gllm.ac.uk.

GWASANAETHAU TRYDYDD PARTÏON:

Mewn rhai achosion, mae'n bosibl y byddwch yn darparu gwybodaeth bersonol i drydydd partïon y mae Grŵp Llandrillo Menai yn gweithio gyda nhw. Er enghraifft, gallai hyn fod yn wefan trydydd parti lle gallwch ymgeisio am swydd gyda'r Grŵp, neu fanteisio ar wasanaethau sydd ar gael i'n gweithwyr. Gall y defnydd o wefannau trydydd parti o'r fath gael eu llywodraethu gan delerau defnyddio a pholisïau preifatrwydd gwahanol nad ydynt o dan ein rheolaeth ac nad ydynt yn ddarostyngedig i'r Polisi Preifatrwydd hwn. Cysylltwch â'r trydydd partïon os oes gennych chi gwestiynau am eu harferion preifatrwydd, ac os hoffech iddynt ddileu eich gwybodaeth bersonol.

BETH YW GWYBODAETH BERSONOL?

Yn y Polisi Preifatrwydd hwn mae gwybodaeth bersonol, a elwir hefyd yn wybodaeth bersonol adnabyddadwy neu'n ddata personol, yn golygu unrhyw wybodaeth sydd (i) yn ei gwneud yn bosibl i adnabod unigolyn yn uniongyrchol ac yn glir, neu (ii) y gellir ei defnyddio ar y cyd â gwybodaeth arall i adnabod unigolyn.

Nid yw gwybodaeth bersonol yn cynnwys gwybodaeth o'r fath os yw'n ddienw neu os yw'r dynodwyr personol ynddi wedi cael eu dileu.

Mae enghreifftiau o wybodaeth bersonol yn cynnwys:

- Enw unigolyn.
- Rhif adnabod gweithiwr.
- Rhif Yswiriant Gwladol
- Cyfeiriad cartref.
- Rhif ffôn cartref.
- Cyfeiriad e-bost personol.
- Enwau aelodau'r teulu.
- Dyddiad geni.

Beth yw Gwybodaeth Bersonol Sensitif?

Mae gwybodaeth bersonol sensitif yn is-ddosbarth o wybodaeth bersonol a all fod yn fwy sensitif ei natur i'r unigolyn dan sylw.

Mae enghreifftiau o wybodaeth bersonol sensitif yn cynnwys:

- Hil, gwybodaeth ethnig, cyfeiriadedd rhywiol, credoau gwleidyddol/crefyddol.
- Rhifau adnabod nawdd cymdeithasol, rhifau treth neu rifau adnabod eraill a gyhoeddir gan y llywodraeth.
- Gwybodaeth ariannol (e.e. union gyflog).
- Gwybodaeth iechyd neu feddygol, gan gynnwys gwybodaeth enetig.
- Cofnodion troseddol.
- Aelodaeth o undeb llafur.

Pa Wybodaeth Bersonol a Gesglir Gennym?

Yn unol â'r gyfraith berthnasol, rydym ni'n casglu gwahanol fathau o wybodaeth bersonol amdanoch. Dyma rai enghreifftiau:

- Enw, rhywedd, cyfeiriad cartref a rhif ffôn, statws priodasol, rhif adnabod gweithiwr, a chysylltiadau brys (gan gynnwys eich perthynas agosaf).
- Gwybodaeth am statws preswylio a thrwydded waith, cenedligrwydd a phasbort.
- Rhifau adnabod nawdd cymdeithasol, rhifau treth neu rifau adnabod eraill y llywodraeth.
- Gwybodaeth cyflogres, manylion bancio.
- Gwybodaeth am gyflogau a budd-daliadau.
- Gwybodaeth am gyfrifon ymddeol.
- Tâl salwch, amser i ffwrdd â thâl (“PTO”), cyfrifon ymddeol, pensiynau, yswiriant a gwybodaeth am fudd-daliadau eraill
- Gwybodaeth o gyfweliadau a sgriniadau ffôn y gallech fod wedi'u cael.
- Dyddiad cyflogaeth, dyddiad(au) dyrchafiad(au), hanes gwaith, sgiliau technegol, cefndir addysgol, ardystiadau a chofrestriadau proffesiynol, galluoedd iaith, a chofnodion hyfforddi.
- Manylion buddiolwyr a manylion cysylltu mewn argyfwng.
- Ffurflenni a gwybodaeth sy'n ymwneud â cheisiadau am fuddion iechyd a lles gweithwyr, neu newidiadau i'r rhain; gan gynnwys, anabledd tymor byr a thymor hir, gofal meddygol a deintyddol, ac ati.
- Taldra, pwysau a maint dillad, ffotograffau, fideos, cyfyngiadau corfforol ac anghenion arbennig.
- Cofnodion absenoldebau o'r gwaith, gwyliau/amser i ffwrdd â thâl, hawliau a cheisiadau, hanes a disgwyliadau cyflog, asesiadau perfformiad, llythyrau gwerthfawrogiad a chanmoliaeth, a gweithdrefnau disgyblu a chwyno (gan gynnwys monitro cydymffurfiaeth â'n polisïau a'u gorfodi).
- Os yw'n berthnasol ac os yw'r gyfraith yn caniatáu hynny, fe allwn ni gasglu canlyniadau gwiriadau cefndir credyd, gwiriadau cefndir troseddol, sgriniadau, ardystiadau iechyd, rhif trwydded yrru, cofrestriadau cerbyd a chefndir gyrru.
- Gwybodaeth sydd ei hangen arnom i gydymffurfio â chyfreithiau, ceisiadau a chyfarwyddiadau awdurdodau gorfodi'r gyfraith neu orchmynion llys (e.e. gwybodaeth am gynhaliaeth plant a thalu dyledion).
- Cydnabyddiaethau ynghylch ein polisïau, gan gynnwys llawlyfrau gweithwyr, polisïau moeseg a/neu wrthdaro buddiannau a pholisïau defnyddio cyfrifiaduron ac adnoddau corfforaethol eraill.
- Gwybodaeth a gesglir ar systemau diogelwch, gan gynnwys Teledu Cylch Cyfyng (“CCTV”).
- Negeseuon llais, negeseuon e-bost, gohebiaeth, dogfennau, a chynnyrch gwaith a chyfathrebiadau eraill a grëwyd, a storiwyd neu a drosglwyddwyd gan ddefnyddio ein rhwydweithiau, ein rhaglenni, ein dyfeisiau, ein cyfrifiaduron neu'n hoffer cyfathrebu.

- Dyddiadau ymddiswyddo neu ddod â chyflogaeth i ben, rheswm dros ymddiswyddo neu ddod â chyflogaeth i ben, gwybodaeth yn ymwneud â gweinyddu dod â'r gyflogaeth i ben (e.e. geirdaon).
- Llythyrau cynnig a derbyn cyflogaeth.
- CVs, llythyrau cais, profiad gwaith blaenorol a/neu berthnasol neu brofiadau eraill, addysg, trawsgrifiadau, neu unrhyw wybodaeth arall a gyflwynwch i ni i gefnogi eich cais a/neu'r broses ymgeisio a recriwtio.
- Geirdaon a nodiadau cyfweliad.
- Gwybodaeth sy'n ymwneud ag unrhyw geisiadau blaenorol (o fewn y deuddeg mis diwethaf) y gallech fod wedi'u gwneud i Grŵp Llandrillo Menai a/neu unrhyw hanes cyflogaeth blaenorol.

SUT RYDYM YN CASGLU EICH DATA:

Fel arfer, rydym yn casglu gwybodaeth bersonol yn uniongyrchol gennych chi mewn amgylchiadau lle'r ydych chi'n darparu'r wybodaeth bersonol (yn ystod y broses gyflogi, er enghraifft). Ond, mewn rhai achosion, mae'r wybodaeth bersonol wedi cael ei chasglu amdanoch ar sail gwybodaeth a gyflwynwyd gennych, trwy eich rhyngweithiadau â ni, neu gan drydydd partïon. Pan fyddwn yn casglu eich gwybodaeth bersonol gan drydydd partïon, mae hynny naill ai oherwydd eich bod wedi rhoi caniatâd penodol i ni wneud hynny, bod eich gweithredoedd yn cyfleu eich caniatâd (e.e. cyflwyno ceisiadau ar sbec neu eich defnydd o wasanaeth trydydd parti a ddarparwyd i chi gennym ni), neu oherwydd eich bod wedi rhoi caniatâd penodol neu ddealledig i'r trydydd parti roi'r wybodaeth bersonol i ni.

Pan ganiateir hynny neu pan fo'n ofynnol gan y gyfraith neu'r gofynion rheoleiddio perthnasol, fe allwn gasglu gwybodaeth bersonol amdanoch heb eich gwybodaeth na'ch caniatâd.

Rydym ni'n cadw'r hawl i fonitro'r defnydd o'n hadeiladau, ein hoffer, ein dyfeisiau, ein cyfrifiaduron, ein rhwydwaith, ein rhaglenni, ein meddalwedd, a'n hasedau ac adnoddau tebyg. Os bydd monitro o'r fath yn digwydd, gall arwain at gasglu gwybodaeth bersonol amdanoch chi. Gall y monitro hwn gynnwys defnyddio camerâu teledu cylch cyfyng yn ein hadeiladau ac o'u cwmpas.

Sut Rydym Ni'n Defnyddio'r Wybodaeth Bersonol a Gasglwn:

Gall Grŵp Llandrillo Menai ddefnyddio eich gwybodaeth bersonol:

1. I reoli pob agwedd ar berthynas gyflogaeth gweithiwr, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i sefydlu, cynnal a therfynu perthnasoedd cyflogaeth. Mae enghreifftiau o weithgareddau sy'n gysylltiedig â hyn yn cynnwys: pennu cymhwysedd ar gyfer cyflogaeth gychwynnol, gan gynnwys gwirio geirdaon a chymwysterau; gweinyddu cyflog a buddion; teithio corfforaethol a threuliau ad-daladwy eraill; datblygu a hyfforddi; monitro absenoldeb; rheoli prosiectau; gweithgareddau archwilio, cydymffurfio a rheoli risgiau; adrodd ar wrthdaro buddiannau; cyfathrebu â gweithwyr; gwerthuso perfformiad; camau disgyblu; cwynion ac ymchwiliadau mewnol; rheoli gyrfaoedd, gan gynnwys asesu cymwysterau ar gyfer swydd neu dasg benodol; prosesu hawliadau sy'n gysylltiedig â gwaith gweithwyr (e.e., iawndal gweithwyr, hawliadau yswiriant); cynllunio olyniaeth; cymorth adleoli; sicrhau a chynnal yswiriant; darparu gwasanaethau sy'n gysylltiedig â gweithwyr; a dibenion cyffredinol eraill sy'n gysylltiedig â gweithrediadau, gweinyddiaeth, cyllid, ac adnoddau dynol.
2. Ar eich cais chi, eich cynorthwyo i sicrhau fisa mewnfudo neu drwydded waith lle bo angen
3. I'w defnyddio mewn fideo-gynadledda.
4. I gynnal rhestrau o weithwyr.
5. Ar gyfer rhaglenni ymgysylltu â gweithwyr, gan gynnwys arolygon.
6. I weinyddu ein rhaglenni iechyd a diogelwch galwedigaethol.
7. I sicrhau diogelwch ein gweithlu, ein gwesteion, ein heiddo a'n hasedau (gan gynnwys rheoli a hwyluso mynediad i'n safleoedd a monitro gweithgareddau gan gynnwys gweithgareddau sy'n defnyddio ein cyfrifiaduron, dyfeisiau, rhwydweithiau, cyfathrebiadau ac asedau ac adnoddau eraill).
8. I ymchwilio i honiadau yn ein herbyn ac i ymateb iddynt.
9. I gynnal manylion am gysylltiadau brys a buddiolwyr.
10. I gydymffurfio â chyfreithiau perthnasol (e.e. iechyd a diogelwch, cyfreithiau cyflogaeth, rheoliadau swyddfa rheoli asedau tramor, cyfreithiau treth), gan gynnwys gorchmynion barnwrol neu weinyddol ynghylch gweithwyr unigol.
11. I gyflawni unrhyw ddibenion ychwanegol yr ydym yn eich cynghori amdanynt (os yw'r gyfraith berthnasol yn gofyn am eich caniatâd penodol ar gyfer defnydd neu ddatgeliad ychwanegol o'r fath, byddwn yn ei gael gennych).
12. I gyflawni dibenion eraill fel rhan o'n gweithgareddau busnes pan fyddwn yn gofyn yn rhesymol am hynny (os yw'r gyfraith berthnasol yn gofyn am eich caniatâd penodol ar gyfer defnydd neu ddatgeliad ychwanegol o'r fath, byddwn yn ei gael gennych).

RHANNU GWYBODAETH BERSONOL:

Gall eich gwybodaeth bersonol gael ei rhannu, gan gynnwys â'n cwmnïau cysylltiedig, is-gwmnïau, a thrydydd partïon eraill, fel a ganlyn:

1. Ar eich cais chi neu pan roddwch chi eich caniatâd i ni.
2. Er mwyn gallu defnyddio gwybodaeth bersonol fel y disgrifir uchod (gw. Sut Rydym Ni'n Defnyddio'r Wybodaeth Bersonol a Gasglwn).
3. Wrth ddefnyddio neu gydweithio â thrydydd partïon i gynnal ein busnes, gan gynnwys mewn cysylltiad â darparu llawer o'r buddion a'r gwasanaethau a gynigiwn i'n gweithwyr (e.e. Systemau Gwybodaeth Adnoddau Dynol, darparwyr gwasanaethau rhaglenni llesiant, darparwyr yswiriant). Pan fyddwn yn rhannu gwybodaeth bersonol â thrydydd partïon, rydym fel arfer yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ddefnyddio neu ddatgelu gwybodaeth bersonol o'r fath mewn modd sy'n gyson â darpariaethau defnyddio a datgelu'r Polisi Preifatrwydd hwn a'r gyfraith berthnasol yn unig.
4. Mae'n bosibl y byddwn yn prynu neu'n gwerthu busnesau ac asedau eraill. Mewn trafodion o'r fath, mae gwybodaeth am weithwyr fel arfer yn un o'r asedau busnes a drosglwyddir ac rydym yn cadw'r hawl i gynnwys eich gwybodaeth bersonol fel ased mewn unrhyw drosglwyddiad o'r fath. Yn ogystal, os byddwn ni, neu gyfran sylweddol o'n hasedau, yn cael ein pwrcasu, gall eich gwybodaeth bersonol fod yn un o'r asedau a drosglwyddir.
5. Pan fo'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol, trwy orchymyn neu ofyniad llys, asiantaeth weinyddol, neu dribiwnlys llywodraeth, sy'n cynnwys mewn ymateb i gais cyfreithlon gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys i fodloni gofynion diogelwch cenedlaethol neu orfodi'r gyfraith neu mewn ymateb i broses gyfreithiol.
6. Os penderfynwn ei bod yn angenrheidiol neu'n ddymunol i gydymffurfio â'r gyfraith neu i amddiffyn ein hawliau neu ein heiddo.
7. Yn ôl yr angen i amddiffyn hawliau, preifatrwydd, diogelwch neu eiddo person neu grŵp adnabyddadwy neu i ganfod, atal neu fynd i'r afael â thwyll, problemau diogelwch neu dechnegol, neu i amddiffyn rhag niwed i hawliau, eiddo neu ddiogelwch ein defnyddwyr, ein hymgeiswyr, ein gweithwyr neu'r cyhoedd neu fel sy'n ofynnol gan y gyfraith.
8. Lle mae'r wybodaeth bersonol yn gyhoeddus.
9. I geisio cyngor gan ein cyfreithwyr a chynghorwyr proffesiynol eraill.
10. I gynghorwyr proffesiynol (e.e. bancwyr, cyfreithwyr, cyfrifwyr) a phrynwyr a gwerthwyr posibl mewn cysylltiad â gwaredu neu gaffael drwy ddefnyddio busnes neu asedau.
11. Fel y rhan fwyaf o fusnesau rhyngwladol, rydym wedi canoli rhai agweddau ar ein gweithrediadau busnes, gan gynnwys er enghraifft, gweinyddiaeth ariannol ac adnoddau dynol. Gallai hyn arwain at drosglwyddo gwybodaeth bersonol o un wlad i'r llall ac ymhlith ein his-gwmnïau a'n cwmnïau cysylltiedig amrywiol. Dylid nodi y gall hyn gynnwys neu beidio â chynnwys gwledydd lle nad yw lefelau diogelu preifatrwydd a hawliau cyfreithiol unigolion yn cael eu hystyried yn gymesur â safonau diogelwch mewn awdurdodaethau sydd â chyfreithiau diogelu data cynhwysfawr, fel gwledydd yr Undeb Ewropeaidd.

MYNEDIAD I'R WYBODAETH BERSONOL A GASGLWN:

Gallwch ofyn am weld y wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch chi. Os ydych chi eisiau adolygu, gwirio neu gywiro eich gwybodaeth bersonol, cysylltwch â data@gllm.ac.uk.

Wrth ofyn am fynediad i'ch gwybodaeth bersonol, nodwch y gallwn ofyn am wybodaeth benodol gennych i'n galluogi i gadarnhau eich hunaniaeth a'ch hawl i gael mynediad, yn ogystal â chwilio am y wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch a'i rhoi i chi. Mewn rhai amgylchiadau, fe allwn godi ffi arnoch am gael mynediad i'ch gwybodaeth bersonol, ond byddwn yn rhoi gwybod i chi am unrhyw ffi a godir ymlaen llaw.

Nid oes gennych hawl absoliwt i gael mynediad i'r wybodaeth bersonol rydym ni'n ei chadw amdanoch. Mae achosion lle mae gofynion cyfreithiol neu reoleiddiol perthnasol yn caniatáu neu'n ei gwneud yn ofynnol i ni wrthod darparu rhywfaint neu'r holl wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch chi. Yn ogystal, mae'n bosibl bod y wybodaeth bersonol wedi cael ei dinistrio, ei dileu neu ei gwneud yn anhysbys. Os na allwn roi mynediad i chi i'ch gwybodaeth bersonol, byddwn yn rhoi gwybod i chi'r rhesymau pam, yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau cyfreithiol neu reoleiddiol.

Cywiro Gwybodaeth Bersonol a Gesglir:

Rydym ni'n ymdrechu i sicrhau bod y wybodaeth bersonol sydd gennym yn gywir, yn gyfredol ac yn gyflawn. Os yw unigolyn yn credu bod ei wybodaeth bersonol yn anghywir, yn anghyflawn neu wedi dyddio, gall ofyn am ddiwygio neu gywiro'r wybodaeth honno. Rydym ni'n cadw'r hawl i beidio â newid unrhyw wybodaeth bersonol a ystyrir yn anghywir.

Os penderfynir bod gwybodaeth bersonol yn anghywir, yn anghyflawn neu wedi dyddio, byddwn yn ei diwygio ac, os oes angen, yn gwneud ymdrechion rhesymol i hysbysu asiantau, darparwyr gwasanaethau neu drydydd partïon eraill a gafodd unrhyw wybodaeth anghywir, fel y gallant hwythau gywiro neu ddiweddaru'r cofnodion sydd ganddynt.

CADW'R WYBODAETH A GASGLWYD:

Ac eithrio lle caniateir neu pan fo'n ofynnol o dan ofynion rheoleiddio neu o dan y gyfraith berthnasol, gallwn gadw eich gwybodaeth bersonol am gyn hired ag y credwn bo angen i fodloni'r dibenion y casglwyd y wybodaeth bersonol ar eu cyfer (gan gynnwys at ddiben bodloni unrhyw ymrwymiadau neu ofynion cyfreithiol, cyfrifyddu neu adrodd eraill).

Gallwch ofyn i ni ddileu'r wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch. Mae achosion lle mae gofynion cyfreithiol neu reoleiddiol perthnasol yn caniatáu neu'n ei gwneud yn ofynnol i ni wrthod â dileu'r wybodaeth bersonol hon. Os na allwn ddileu eich gwybodaeth bersonol, byddwn yn rhoi gwybod i chi'r rhesymau pam, yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau cyfreithiol neu reoleiddiol.

CEISIADAU I WELD, DILEU NEU GYWIRO GWYBODAETH A GASGLWYD:

Os ydych chi eisiau gweld, dileu neu gywiro eich gwybodaeth bersonol, cysylltwch â data@gllm.ac.uk.

Ni fydd unrhyw gais gennych chi i ni ddileu eich gwybodaeth bersonol yn arwain at ddileu unrhyw wybodaeth a gyflwynwyd gennych chi i ddarparwr trydydd parti. Os ydych chi am i'r trydydd parti ddileu unrhyw ran o'ch gwybodaeth bersonol, rhaid i chi gysylltu â'r trydydd parti yn uniongyrchol i ofyn iddynt wneud hynny.

DATRYS PRYDERON A CHWYNION:

Os oes gennych gwestiynau neu bryderon ynghylch y ffordd yr ymdrinnir â'ch gwybodaeth bersonol, cysylltwch â data@gllm.ac.uk. Neu, gallwch roi gwybod am bryderon neu gwynion. Mae'r manylion ar gael ar wefan y Grŵp. Yn unol ag Egwyddorion Deddf Data (Defnydd a Mynediad), mae Grŵp Llandrillo Menai wedi ymrwymo i ddatrys cwynion neu bryderon a allai fod gennych ynghylch preifatrwydd neu sut mae eich gwybodaeth bersonol yn cael ei defnyddio (cyfeiriwch at yr adran Ceisiadau i Weld neu Gywiro Gwybodaeth a'r adran Datrys Pryderon yn y Polisi Preifatrwydd hwn).

Os na chaiff eich cwyn ei datrys yn uniongyrchol yn foddhaol gennym ni, gallwch gysylltu â'r darparwr datrys anghydfodau annibynnol yn ico.org.uk.

Newidiadau i'r Polisi Preifatrwydd:

Gallwn newid y Polisi Preifatrwydd hwn ar unrhyw adeg. Dyddiad dod i rym y fersiwn hwn o'r Polisi Preifatrwydd yw 01.06.26.

DIOGELWCH GWYBODAETH A GESGLIR:

Rydym ni wedi ymrwymo i amddiffyn diogelwch y wybodaeth bersonol a gesglir, ac rydym yn defnyddio mesurau diogelwch ffisegol, electronig a gweinyddol rhesymol i helpu i amddiffyn y wybodaeth rhag cael ei gweld neu ei defnyddio'n amhriodol neu heb awdurdod.

Yn unol ag Egwyddorion Deddf Data (Defnydd a Mynediad), mae Grŵp Llandrillo Menai wedi ymrwymo i ddatrys cwynion neu bryderon a allai fod gennych ynghylch preifatrwydd neu sut mae eich gwybodaeth bersonol yn cael ei defnyddio (cyfeiriwch at yr adran Ceisiadau i Weld neu Gywiro Gwybodaeth a'r adran Datrys Pryderon yn y Polisi Preifatrwydd hwn).

Os na chaiff eich cwyn ei datrys yn uniongyrchol yn foddhaol gennym ni, gallwch gysylltu â'r darparwr datrys anghydfodau annibynnol yn ico.org.uk.